

Dyddiad: 10 Mawrth 2020

Annwyl Gydweithiwr,

## **Coronafeirws (COVID-19)**

Rydym yn ysgrifennu atoch i rannu diweddariad ar y ffordd rydym yn ymateb i'r achos o COVID-19, yn ogystal â'r ffordd rydym yn bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Byddwn bob amser yn gweithredu er budd gorau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau – felly er ei bod yn briodol cydnabod yr angen i chi ganolbwyntio ar ddarparu gofal, byddwn bob amser yn cydbwysu hyn â'n cyfrifoldeb i sicrhau y caiff diogelwch defnyddwyr y gwasanaeth ei gynnal.

Mae hon yn sefyllfa sy'n newid yn gyflym a all olygu y byddwn yn newid yr hyn rydym yn ei wneud a'r ffordd rydym yn ei wneud. Felly, rydym wedi sefydlu tair prif egwyddor y byddwn yn eu defnyddio i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i fod yn ddiogel, wrth leihau'r effaith arnoch chi a'ch cydweithwyr eich hunain.

- byddwn yn ffocysu ein gweithgarwch lle bo'i angen fwyaf er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gofal diogel – mae hyn yn golygu canolbwyntio ar y meysydd hynny lle rydym o'r farn bod y risg i ansawdd y gofal ar ei uchaf, a lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf
- byddwn yn cefnogi darparwyr drwy edrych ar y ffordd y gallwn weithredu'n hyblyg ac yn gymesur
- byddwn yn cydymffurfio â'n dyletswydd i ofalu am ein cydweithwyr yn AGC

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Parc Business Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 7900 126

✉ [ciw@gov.wales](mailto:ciw@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Merthyr Tydfil Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Rhydycar Business Park  
Merthyr Tydfil  
CF48 1UZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn parhau i gynnal arolygiadau, ond byddwn yn adolygu cynlluniau arolygu yn barhaus er mwyn sicrhau bod ein gweithgarwch yn cyd-fynd â'r sefyllfa diweddaraf. Yn y byrdymor, bydd y rhan fwyaf o arolygiadau yn mynd rhagddynt yn unol â'r trefniadau – byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa ac efallai y byddwn yn penderfynu gohirio arolygiad. Byddwn yn defnyddio dull pragmatig a hyblyg sy'n seiliedig ar risg ar gyfer y ffordd rydym yn rheoleiddio ac yn cymryd camau gorfodi wrth i'r sefyllfa hon ddatblygu, ac rydym yn ymrwymo i barhau i drafod â darparwyr.

Byddwn yn rhannu diweddariadau â chi drwy ein sianeli cyfathrebu rheolaidd, fel bwletinâu'r darparwyr, ein sianeli Twitter a Facebook, a'n gwefan. Gellir gweld y wybodaeth swyddogol gyffredinol gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yma:

<https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19>  
[www.phw.nhs.wales](http://www.phw.nhs.wales).

Rydym yn disgwyl i bob darparwr ddilyn cyngor ac arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw ddatblygiadau pellach.

Yn gywir



Gillian Baranski  
**Chief Inspector**  
Care Inspectorate Wales